
Dathlwch Ben-blwydd 30 Mlynedd y Loteri Genedlaethol trwy bostio eich hunlun bysedd wedi'u croesi!




#YLoteriGenedlaethol30

# YMUNWCH Â NI I DDWEUD #DIOLCHICHI I CHWARAEWYR Y LOTERI GENEDLAETHOL, AM 30 MLYNEDD O ARIANNU PROSIECTAU ANHYGOEL LED LED Y DU

Bydd miloedd o bobl, ar y cyd, yn postio hunluniau bysedd wedi'u croesi ar **ddydd Mawrth 19 Tachwedd 2024.** Byddwn yn dweud diolch yn fawr twymgalon i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am eu cyfraniad enfawr i elusennau a grwpiau cymunedol ar draws y DU, ac fe'ch gwahoddir chi i gymryd rhan.




Mae eleni yn nodi pen-blwydd 30 mlynedd y Loteri Genedlaethol – ac rydym eisiau i'r Diwrnod Hunluniau Bysedd wedi'u Croesi fod hyd yn oed mwy a gwell nag erioed!

Fel prosiect sydd wedi derbyn arian gan y Loteri Genedlaethol, rydych yn rhan o rwydwaith rhyfeddol o dros 250,000 sefydliad sy'n newid bywydau bob dydd– gyda'u gwaith yn cael ei gefnogi gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, sy'n codi £30 miliwn yr wythnos ar gyfer achosion da yn union fel un eich hunan.

## Sut allaf gymryd rhan?

Mae ymuno yn hawdd. Gofynnwn i chi hel eich cefnogwyr at ei gilydd – gan gynnwys eich gwirfoddolwyr, staff, defnyddwyr gwasanaeth – gyda chais syml iawn:

- Rhannwch eich hunlun bysedd wedi'u croesi ar ddydd Mawrth 19 Tachwedd 2024. Gall hyn fod ar unrhyw lwyfan cyfryngau cymdeithasol o'ch dewis.

- Cofiwch gynnwys neges am sut mae chwaraewyr y Loteri Genedlaethol wedi helpu eich sefydliad dros y 30 mlynedd diwethaf, a dweud diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol gan ddefnyddio'r hashnodau **#DiolchIChi** a **#YLoteriGenedlaethol30.**



30 MLYNEDD O NEWID BYWYDAU
30 YEARS OF CHANGING LIVES

Yn ogystal â bod yn symbol eiconig y Loteri Genedlaethol, mae bysedd wedi'u croesi yn symbol o obaith – gan helpu pobl i wneud y cysylltiad rhwng y gêm a'r achosion da a gefnogir gan y Loteri.

Peidiwch ag anghofio ein tagio ni! Ein dolenni yw:

Facebook: Lottery Good Causes

Instagram: @NationalLotteryGoodCauses

X: @LottoGoodCauses

LinkedIn: National Lottery Promotions Unit

TikTok:@nationalotterygoodcauses

# PWY ALL GYMRYD RHAN?

Ar y diwrnod, buasem wrth ein boddau pe gallech bostio hunluniau bysedd wedi'u croesi i gyfrifon cymdeithasol eich sefydliad ac annog eich cefnogwyr i wneud yr un peth.

Er enghraifft, fe allech estyn allan at:

- Staff a gwirfoddolwyr
- Defnyddwyr gwasanaeth a buddiolwyr
- Uwch randdeiliaid – e.e. gwleidyddion lleol
- Codwyr arian

Mae croeso i chi fod yn greadigol gyda'ch hunluniau bysedd wedi'u croesi – trwy ychwanegu brandiau neu bropiau hwyliog, mynd â'ch lluniau bysedd wedi'u croesi tu allan, yn eich lleoliadau neu brosiectau, neu ar grwydr yn eich cymuned… Mae'r posibiliadau yn ddi-ben-draw!


@St Nicks Local Nature Reserve


@Horniman Museum and Gardens


@Froglife

# PAM?

Bydd elusennau a grwpiau cymunedol o bob cwr o'r DU yn postio hunluniau ar **ddydd Mawrth 19 Tachwedd 2024** – o elusennau cenedlaethol i grwpiau llawr gwlad lleol– a buasem wrth ein boddau pe gallech fod yn rhan o'r diwrnod o ddathlu hynod hwn.

Mae cymryd rhan yn gyfle gwych i amlygu'r ffordd y mae eich elusen neu grŵp wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl yn eich cymuned leol.

Trwy bostio hunluniau bysedd ar y diwrnod, byddwch yn dangos eich bod yn rhan o rwydwaith anhygoel o elusennau a grwpiau cymunedol sy'n newid bywydau bob dydd, ac yn amlygu'r effaith y mae chwaraewyr y Loteri Genedlaethol wedi ei chael drwy ariannu eich gwaith dros y 30 mlynedd diwethaf.

Bydd defnyddio'r hashnod **#DiolchIChi** a **#YLoteriGenedlaethol30** hefyd yn codi proffil eich brand a chyfryngau cymdeithasol ar y diwrnod ac yn rhoi cyfle i bobl glywed am eich elusen neu grŵp.

# DIOLCH

Gyda'n gilydd, gallwn sicrhau fod y cyhoedd yn gwybod sut mae chwarae'r Loteri Genedlaethol yn gwneud gwahaniaeth i achosion da drwy'r DU benbaladr.

Rydym yn hynod ddiolchgar am eich cefnogaeth, ac am y cyfan rydych wedi'i wneud i helpu eich cymuned dros y 30 mlynedd diwethaf. Gadewch i ni weiddi amdano gyda'n gilydd!



Modd Bysedd Wedi'u Croesi YMLAEN! 🤞